

Nodyn o'r Cyfarfod rhwng Cynrychiolwyr o'r Trydydd Sector a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – 4 Mai 2022

Yn Bresennol

Rebecca Evans - Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Cadeirydd
Andrew Johnson - Cynghorydd Arbennig

Trydydd Sector

Michelle Hunt - Cyswllt Amgylchedd Cymru
Helene Hayes - Cyngor ar Bopeth Cymru
Izzabella James - Homestart Cymru
Uzo Iwobi - Race Council Cymru
Victoria Lloyd - Age Cymru
Derek Walker - Cwmpas
Jamie Burt - Siawns Teg
Iestyn Wyn - Stonewall Cymru

CGGC

Ruth Marks - Prif Weithredwr
Alison Pritchard - Rheolwr Cyllid Cynaliadwy
Ben Lloyd - Pennaeth Polisi
David Cook - Swyddog Polisi

Phil Fiander - Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Chris Buchan - Polisi'r Gymuned a'r Trydydd Sector
Emma Watkins - Y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth
Lisa Daniels-Griffiths - Gwella'r Gyllideb ac Ymgysylltu yn ei Chylch
Janine Downing - Swyddog Arweiniol Gwella'r Gyllideb
Tom Cleaver - Polisi Treth Twristiaeth, Trysorlys Cymru
Paula James - Ymgysylltu Strategol Llywodraeth Leol
Elin Morgan - Rheolwr Polisi a Threth Twristiaeth, Trysorlys Cymru

Ysgrifenyddiaeth

Paul McDonagh - Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu
Sandra Stephenson - Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu

1. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021

1.1 Derbyniwyd y cofnodion.

2. Prosesau Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

2.1 Dywedodd y Gweinidog fod blaenoriaethu cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael eu pennu hyd at 2024-25 yn sgil adolygiad gwariant amlflwyddyn Hydref 2021 Llywodraeth y DU. Roedd y Cabinet yn gytŷn y dylai gwariant ganolbwyntio ar

flaenoriaethu iechyd a gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, ac addysg; i gyd yn feysydd sy'n berthnasol iawn i'r Trydydd Sector.

- 2.2 Roedd y paratodau cyllidebol ar gyfer 2023-24 yn parhau i gydnabod y Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol, gan gynnal sicrwydd i bartneriaid y Trydydd Sector wrth iddynt bennu eu cyllidebau eu hunain. Bydd y gwaith cynllunio'n seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael, gan ystyried amrywiaeth eang o senarios posibl. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn cydnabod yr her sy'n cael ei chreu gan y ffaith bod lefelau chwyddiant yn codi a bod cyllid yr UE wedi cael ei golli, yn ogystal â'r argyfwng costau byw ac effeithiau'r rhyfel yn Wcráin.
- 2.3 Roedd y Gweinidog yn ymwybodol bod cod ymarfer cynllun y Trydydd Sector yn nodi codiadau mewn lefelau ariannu Llywodraeth Cymru, oherwydd costau byw neu chwyddiant, ac y dylai gael ei weithredu mewn modd teg mewn perthynas â derbynwyr cyllid y Trydydd Sector. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn anffodus nad oedd unrhyw gynnydd mewn cyllid wedi ei ddarparu hyd yn hyn gan Lywodraeth y DU i adlewyrchu'r ffaith bod chwyddiant yn codi. O ganlyniad, nid oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gynyddu cyllid y tu hwnt i'r lefelau a bennwyd yn y Gyllideb a oedd wedi ei chymeradwyo gan y Senedd yn y mis blaenorol, ond serch hynny roedd yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU.
- 2.4 Hefyd dywedodd y Gweinidog fod swyddogion wedi rhoi cyflwyniad ar Broses Cyllideb Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod ffurfiol cyntaf y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Roedd yn falch bod cynifer o gydweithwyr o'r Trydydd Sector yn cymryd rhan yn y grŵp hwn, a dywedodd y byddai'r cyflwyniad yn cael ei roi i Gynulleidfa Trydydd Sector ehangach ar 25 Mai.
- 2.5 Croesawodd y Gweinidog gyfraniad y Trydydd Sector i'r gwaith o ddatblygu strategaeth gyllidebol ac roedd yn awyddus bod sylwadau'r Sector ar y blaenoriaethau ar gyfer y grŵp cynghori yn cael eu hystyried wrth i'r gwaith fynd rhagddo.
- 2.6 Croesawodd y Trydydd Sector y cyfle i weithio gyda swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru, ond pwysleisiwyd bod angen cydweithio â'r Trydydd Sector yn gynnar yn y broses er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu clywed. Croesawyd y cyflwyniad ar y gyllideb, gan obeithio y byddai recordiad ar gael i'r rheini a oedd yn methu â bod yn bresennol.
- 2.7 Cytunodd y Gweinidog i bwysleisio wrth gydweithwyr yn y Cabinet bod angen dechrau cydweithredu'n gynnar yn y broses waith, gan awgrymu hefyd y byddai'n fuddiol pe bai'r Grŵp cynghori'n cael cyflwyniad ar y Strategaeth Buddsoddi yn y Seilwaith. (**CAM GWEITHREDU**: Emma Watkins a Lisa Daniels-Griffiths i ystyried materion)

3. Y Diweddaraf gan yr Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth

- 3.1 Rhoddodd Phil Fiander adroddiad ar ran yr Is-bwyllgor a oedd yn diolch i swyddogion am weithio gyda nhw yn gynnar yn y broses.
- 3.2 Dywedodd Phil fod yr Is-bwyllgor yn awyddus i adolygu ei god ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas ar gyfer ei ddiben. Pwysleisiodd hefyd fod angen codi ymwybyddiaeth o'r cod er mwyn sicrhau bod gwahanol gyrrff cyhoeddus yn cadw ato.
- 3.3 Dywedodd Alison Pritchard, CGGC, y bu'n gweithio ar gyfleoedd grant mwy tymor hir ac awgrymodd y dylid sicrhau bod grantiau Llywodraeth Cymru yn fwy gweladwy drwy ddefnyddio platfform Cyllido Cymru, sydd â bron 15,000 o ddefnyddwyr.
- 3.4 Awgrymodd Iestyn Wyn, a oedd yn cynrychioli'r sector cydraddoldeb a chynhwysiant, fod gan Lywodraeth Cymru rôl o ran annog sefydliadau mwy o faint i eirioli ar ran grwpiau llawr gwlad llai, a'r posibilrwydd y gallai sefydliadau mwy ddyrannu grantiau bach.
- 3.5 Roedd y Gweinidog yn ddiolchgar i'r Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth am ei waith ar grantiau mwy tymor hir. Roedd yn cefnogi'n llawn yr adolygiad o'r cod ymarfer, a chytunodd i sôn amdano wrth Jane Hutt AS y tro nesaf iddynt siarad. Roedd yn awyddus i weld rhagor o waith yn cael ei wneud gyda swyddogion i godi proffil grantiau Llywodraeth Cymru, gan ofyn a fyddai'n bosibl cyfuno ceisiadau grant. (**CAMAU GWEITHREDU:** Y Gweinidog i drafod y cod ymarfer â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, swyddogion i ystyried sut y gellid sicrhau bod grantiau Llywodraeth Cymru yn fwy gweladwy.)

4. Cysylltiadau rhwng y sector gwirfoddol a chyrrff cyhoeddus – papur gan y Trydydd Sector

- 4.1 Cyflwynodd Ben Lloyd, CGGC, y papur a oedd yn amlygu pryderon ynghylch symud tuag at fwy o weithio rhanbarthol a chysylltiadau rhwng y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol. Hefyd roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch y dirwedd partneriaeth ranbarthol. Pwysleisiodd Ben ei bod yn hanfodol bod cyrrff statudol yn cyflawni gwaith ymgysylltu o safon, a oedd yn cynnwys yr amrywiaeth o wahanol leisiau yng Nghymru, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 4.2 Tynnodd Uzo Iwobi sylw at gymhlethdodau rhai strwythurau gan awgrymu y byddai llunio map neu ganllaw, i ddangos i ba gyfeiriad y dylai sefydliadau symud, yn gwella tryloywder.

- 4.3 Pwysleisiodd Helene Hayes y galw sylweddol am wasanaethau Cyngor ar Bopeth. Hefyd, pwysleisiodd y data a'r wybodaeth sydd gan Gyngor ar Bopeth a'r ffaith y byddai'n hapus i rannu'r rhain gyda sefydliadau sy'n cyflwyno ceisiadau.
- 4.4 Croesawodd Derek Walker y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cymryd mwy o ran yng ngwaith y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond roedd yn teimlo nad oedd y Trydydd Sector yn chwarae rôl lawn. Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru wneud achos ynglŷn â'r strwythurau newydd ar gyfer sicrhau bod y Trydydd Sector yn cyfrannu'n gynnar ac mewn modd ystyrlon. Gofynnodd ynghylch posibiliadau cyllid cyfatebol.
- 4.5 Diolchodd y Gweinidog i'r grŵp am y papur hwn. Roedd yn cefnogi'r syniad o lunio map/canllaw ac awgrymodd y dylid cynnal trafodaethau pellach gyda'i swyddogion. Awgrymodd hefyd y dylai ddefnyddio ei haraith i CLILC a'i chyfarfodydd gydag arweinwyr awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth o rôl sefydliadau'r Trydydd Sector. Dywedodd y Gweinidog nad oedd cyllid cyfatebol wedi cael ei ystyried hyd yma, a chadarnhaodd mai Gweinidog yr Economi oedd yn darparu arweinyddiaeth ar y Gronfa Ffyniant Bro, ond ei bod hi'n hapus i hwyluso. (**CAM GWEITHREDU:** Swyddogion i drafod map/canllaw gyda chydweithwyr yn y Trydydd Sector) (**CAM GWEITHREDU:** Swyddogion i rannu gybodaeth am yr Adolygiad Partneriaethau Strategol)

5. Ardoll Dwristiaeth – Ymgysylltu

- 5.1 Rhoddodd Tom Cleaver drosolwg o'r ardoll dwristiaeth arfaethedig. Eglurodd beth, pam, yr amseriad, a'i chwmpas, gan gytuno i rannu ei sleidiau gyda'r grŵp. Dywedodd y byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal yn yr hydref, ac roedd yn croesawu cyfraniad gan y Trydydd Sector. (**CAM GWEITHREDU:** Tom Cleaver i rannu ei sleidiau)
- 5.2 Ymddiheurodd y Gweinidog nad oedd llawer o amser ar gael i drafod yr eitem hon, gan ddweud y byddai'n hapus i weld cyflwyniad a thrafodaeth hirach yn digwydd rhywbryd yn y dyfodol er mwyn rhoi cyfle i'r Trydydd Sector gyfrannu'n briodol.
- 5.3 Rhoddodd Tom gyfeiriad e-bost (TourismLevy@gov.wales / TourismLevy@llyw.cymru) i'w ddefnyddio os bydd rhywun am gysylltu ag ef i gael rhagor o wybodaeth.